Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Tref Machynlleth

Wedi ei cynal yn Y Plas ar ddydd Llun Ionawr 5 2009

Bresennol Cyng B Dunn; S Rowlands; C Foster; M Williams; G Davies; G Baldwin; D Lewis; DW Davies

Hefyd yn Bresennol J. H. Parsons – Clerc M Biffin - Ysgifenyddes

---

5234 CT 05.01.09 **Ymddiheuriadau**

- Cyng G Jenkins; K Hubbard; E Hughes

5235 CT 05.01.09 **Cyflwyniad**

- Doedd dim cyflwyniad y tro hyn

5236 CT 05.01.09 **Cofnodion**

- Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ad wedi cael ei derbyn gan y Cyngor

5237 CT 05.01.09 **Busnes Stadurol**

- Dywedodd y Clerc fod Cyng Jacinta Macdermot wedi ymddiswyddo o Cyngor Tref Machynlleth. Fe fydd hysbysiad y swydd yn cael ei arddangos. Dywedodd Cyng Dunn fod llythyr o ddiddordeb wedi cael ei dderbyn oddiwrth preswyliwr lleol – mae'r Clerc I yrru llythyr iddo I egluro sut I wneud cais.
- Fe ddaru'r Clerc gadarnhau bod yr archwiliad wedi ei gwblhau

5238 CT 05.01.09 **Busnes y Maer**

Fe roddodd y Maer ei adroddiad fel y canlyn

- 29 Tachwedd – wrth y cloc yn troi y goleuadau ymlaen ar y goeden Nadolig Yr oedd nifer dda o bobl wedi dod ynghyd a gyda ymdrechion y Clwb Rotary sydd wedi ei ail ffurfio, Siambr Masnach a CTM yr oedd yn noson hwyliog.
- 1 Rhagfyr – cyfarfod gyda Kate Doubleday o Gerddi Bro Ddyfi ynglyn a'r bwriad o'r gerddi gymuned yn Y Plas. Dywedodd Cyng Williams bod y gwaith hyd yn hyn yn ardderchog.
- 11 Rhagfyr – Yn y Ganolfan Hamdden yn cael cinio Nadolig gyda Clwb Maglona
- 12 Rhagfyr – Yn y Ganolfan Gofal gyda'r Groes Goch Brydeinig yn cael cinio Nadolig
- 14 Rhagfyr – Yn agor arddangosfa I glwb celf Pantperthog, yr oedd yn lwyddiant I'r fenter newydd hon.
- 16 Rhagfyr – Ffair Gaeaf Wil Lloyd. Yn falch iawn o gefnogi y digwyddiad yma gyda un or llysgennhadon gorau.
- 25 Rhagfyr – Ymweliad Dydd Nadolig I'r ysbyty a Cartref Dyfi gyda'r Faeres a'r Is Faer Dywedodd y Cyng Rowlands ddylai unrhyw Faer yn y dyfodol gadw'r traddodiad oherwydd yr oedd y staff,y cleifio, a'r bobl oedd yn cartrefi yno yn gwerthfawrogi yr ymweliad..
- 28 Rhagfyr – Yn Y Plas I weld Ceffylau Cadfarch yn cychwyn gwibdaeth hwyl Nadolig

- Llythyron o werthfawrogiad I William Palmer a Barbara Walker ynglyn a'r stondin a'r "Telecentre"
- Cyn ffurflen gais wedi ei gyrru I gronfa etifeddiaeth y loteri

5239 TC 05.01.09 **Materion yw codi**

- Cymhariaeth rhifau yr Heddlu a ffigerau troseddau(**5205**) – llythyr oddiwrth Heddlu Dyfed Powis – yr oedd Cyng Williams yn teimlo ddylsem ni ofyn mwy am rifau yr Heddlu oherwydd hyd yn hyn does dim ateb wedi dod..
- Goleuadau Strydoedd **(5161)** – Copiau o e-bost oddiwrth Mr Thain I CSP. E.bost wedi ei yrru I CSP oddiwrth CTM – dywedodd Cyng Dunn bod yr ateb a gafodd Mr Thain oddiwrth Mr Mark Kerr gweithredwr pennaeth CSP yn amharchus.Yr oedd Cyng Dunn yn teimlo fod Mr Thain yn haeddu ateb gweddus – dywedodd Cyng Williams dylsai CSP edrych am ffyrdd eraill o safio prês a ni ddylsai effeithio ar y bobl yn y stryd.
- Goleuau Strydoedd **(5161**) e.bost wedi ei yrru I CSP oddiwrth CTM
- Galwyd am dystiolaeth o gostau Cynghorion (**5230) –** llythyr I LCC. Dywedodd Cyng DW Davies fod yn ffiaidd y ceisiadau oedd yn cael ei gwneud a fe ddylsai pethau fod llawer iawn mwy agored. Dywedodd Cyng Williams fod yr itemau yr oeddynt yn gwneud ceisiadau am yn warthus.
- Rhandiroedd **(5193) –** llythyr oddiwrth CSP. Dywedodd Cyng Williams bod y tir yn Bryn y Gog ddim yn addas oherwydd ei fod yn cynnwys nifer fawr o gerrig.
- Llwybr troed Ffordd y Forge **(5199)** – Copi o lythyr oddiwrth Cyng Sir,M Williams
- Stepiau wrth Royal House **(5199)** – Llythyr I CSP ac ebost oddiwrth CSP, llythyron oddiwrth y Wynnstay – dywedodd Cyng Williams petai yn cael copiau or llythyron mi fedrai ddilyn yr achos.

5240 CT 05.01.09 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

- Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.
- Lloches Bws – Siaradodd Cyng Williams gyda Mr Forsey cyn y Nadolig a fe ddywedodd Mr Forsey fe fyddai yn cysylltu gyda CTM – ydi hyn ddim wedi digwydd. **Cytunwyd** i yrru llythyr I Mr Mark Kerr gweithredwr pennaeth y CSP I ofyn pam nac oeddem yn derbyn atebion I'n cyfatebau gyda CSP

5241 CT 05.01.09 **Adroddiad y Panel Iechyd**

- Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.
- Uned Anafol ddibwys. Dywedodd Cyng Rowlands bod y gwasanaeth gyda'r meddygon wedi cychwyn ac yr oedd y figurau yn barod yn uwch nac oeddynt wedi rhagweld
- Dywedodd Cyng Williams bod cofnodion y Bwrdd Iechyd yn awr ar y Wê ond fe gytunwyd I yrru llythyr I'r Bwrdd Iechyd yn gofyn am gopi o'r cofnodion gael ai gyrru I CTM
- Dywedodd Cyng Rowlands bod problemau difrifol yn Ysbyty Bronglais a bod y staff yn methu ymdopi gyda'r nifer o gleifion oedd angen cael ei gweld – dywedodd petai Ysbyty Machynlleth yn cael ei agor mi fyddai yn lleddfu y broblem a dylsai pwysi gael ei roddi ar yr Awdurdod Iechyd – dywedodd Cyng Baldwin ein bod wedi cael cydarfodydd ynglyn a hyn yn y gorffennol a'r Awdurdod Iechyd yn cytuno ei fod yn syniad da a dweud ei

bod yn mynd i edrych i mewn i hyn ond ydi hyn byth yn digwydd. **Cytunwyd** i yrru llythyr i'r Bwrdd Lleol Iechyd yn awgrymu hyn

5242 CT 05.01.09

Adroddiad Panel Cloc y Dref

- Oherwydd absennoldeb Cyng Jenkins dywedodd Cyng Dunn bod cyfarfod wedi cymeryd lle gyda'r Pensaer a bod cyn gais wedi cael ei yrru I gronfa drefntadaeth y loteri.
- **Cytunwyd** i,r anfoneb am y Wê gael ei thalu gan CTM.

5243 CT 05.01.09

Plas Panel Report

- Rhoddodd Cyng Dunn ei adroddiad a fe gafodd ei dderbyn.
- Dywedodd Cyng Dunn bod lorri wedi taro carreg goffa I,r gynt Lledfair Hall. Cafodd ei yrru y ffordd anghywir gan ei "Satnav". Mae Cyng Dunn wedi pasio y manylion i gyd i CSP oherwydd bod y tîr yn perthyn iddynt

5244 CT 05.01.09

Adroddiad Cynghorwr Sir, J M Williams

- Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

5245 CT 05.01.09

Ceisiadau Cynllunio

- P2008 1689 – Tîr yn Dovey Lime Machynlleth – lein trydan uwchben
- P2008 1729 – Albert House Penrallt – gosod lloeren disgl
- P2008 1447 - 105 Heol Maengwyn - **Cytunwyd**
- P2008 1476 – 7 Heol Penrallt – adeilad wedi ei gofrestru, ceisiad I osod cyflyru aer **Gwrthodwyd**

5246 CT 05.01.09

- **Datganiad Cyfrifon**
- Doedd dim cyfrifon I gyflwyno oherwydd bob y llyfrweithiwr yn sál. Mi fydd y cyfrifon yn cael ei cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

5247 CT 05.01.09

Gohebiaethau

- Carden oddiwrth Sgt Lee Dunn
- Llythyr I Heddlu Dyfed Powys – dywedodd Cyng Williams ddylsai llythyr gael ei yrru I Heddlu Dyfed Powis yn gofyn be mae nhw yn bwriadu gwneud ynglyn a pringder o swyddogion a sarsiant. **Cytunwyd**
- Llythyr I'r Telecentre
- Llythyr I William Palmer.
- Hyfforddiant Côd ymddigiad – llythyr oddiwrth CSP .**Cytunwyd** I lythyr gael ei yrru yn gofyn i,r hyfforddiant gael ei gynnal yn Machynlleth yn lle y llefydd eraill yr oeddynt yn sôn am.Hwn oedd yr ail waith I'r cwrs Hyfforddiant fynd o amgylch ac yr un hyd yn hyn wedi ei gynnal yn adran Machynlleth
- Un llais Cymru 13 Ionawr Cyfarfor Cyffredin Blynyddol
- Masnach teg Dyffryn Dyfi – llythyr yn gofyn am gefnogaeth.**Cytunwyd** I lythyr gael ei yrru
- Carden oddiwrth Ivan Warren

5248 CT 05.01.09 **Rhifennau**

- PAVO
- Age Concern

5249 CT 05.01.09 **Unrhyw Fusnes Arall**

- Pryd o fwyd mi nos –Cytunwyd byddai pryd o fwyd yn cael ei drefnu I'r Cynghorwyr a staff y CTM
- Biliau CTM Eglurodd Cynghorwr Dunn bod ychydig o broblemau gyda biliau ddim yn cael ei talu ar amser. Mae yn edrych I mewn I hyn.
- Y Ford Anrhydeddau – Dywedodd Cyng Dunn fod Y Ford Anrhydeddau I'r gynt Gyngor trefol ardal Machynlleth yn cael ei gadw mewn swyddfa ym mhen draw y Plas a mi **Gytunwyd** fe ddylsai gael ei roddi ar y mur. Dywedodd Cyng Dunn ei fod wedi cael pris oddiwrth Dai Rowlands – derbynwyd y pris ac yr oedd yr ysgrifenyddes I drefnu I'r gwaith gychwyn.
- Tapestri – yr oedd y clerc yn meddwl bod y tapestry yn cael ei gadw yn ystafell powis yn yr OGI. **Cytunodd** I gysylltu gyda Mr Henry Evans I drafod y tapestry iddo gael ei arddangos yn Y Plas, fel yr awgrymodd y gynt Gyng Ivan Warren.